# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD IAU, 13 EBRILL 2023

## BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley a/ac N.Jenkins

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

J.Burge, R.Crowhurst, I.Guy, S.McCluskie a/ac C.Millis

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Nia Jenkins yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles ar 16 a 24 Mawrth 2023 fel cofnodion cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Nodir Blaenraglen Waith Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet.

Atgoffwyd Swyddogion bod y manylion a nodwyd yn y Blaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol, sef 2022/23. Bydd Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu er mwyn trafod eitemau ar

gyfer y flwyddyn 2023/24 yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2023.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

7. **DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL (CANIATÂD I YMGYNGHORI)**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd, penderfynwyd rhoi caniatâd i ymgynghori o ran dyddiadau tymor ysgol arfaethedig 2025/2026.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun 17 Ebrill 2023.

**Ymgynghoriad:**
Ymgynghorir â chyrff llywodraethu, cynrychiolwyr undeb llafur ac awdurdodau derbyn, gan gynnwys y rheini yn y maes perthnasol.

8. **CYNLLUN ELUSENNOL AR GYFER GWAREDU ENILLION GWERTHU HEN SAFLE YSGOL GYFUN GLANAFAN**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r adroddiad:

1. Rhoddir cymeradwyaeth i gais a gyflwynwyd i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer cynllun elusennol ar gyfer gwario'r arian o werthiant hen dir Ysgol Gyfun Glan Afan.
2. Rhoddir cymeradwyaeth i'r arian gael ei wario ar gynllun sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yn yr 21ain ganrif.
3. Rhoddir cymeradwyaeth i'r gronfa fod yn rhydd o gyfyngiadau o ran gwariant unrhyw gyfalaf perthnasol, a benderfynwyd dan Adran 282 Deddf Elusennau 2011.
4. Rhoddir cymeradwyaeth i fuddsoddi arian y gwerthiant o dan Adran 290 Deddf Elusennau 2011.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol i ryddhau'r arian o ganlyniad i werthiant hen safle Ysgol Gyfun Glan Afan.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Rhoddir y penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun 17 Ebrill 2023.

**Ymgynghoriad:**
Yn dilyn cymeradwyaeth, efallai y bydd y Comisiwn Elusennau'n gofyn am gynnal ymgynghoriad.

9. **ADDYSG DDEWISOL GARTREF**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

10. **CYDRADDOLDEB A LLE DIOGEL I DDYSGU**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

11. **ADRODDIAD URDDAS Y CYFNOD**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

12. **DIWEDDARIAD NEET**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

13. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**